**Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2024**

**Enw'r Elusen:** Cymdethas Côr Meibion Caerfyrddin
**Rhif cofrestredig:** 259482
**Cyfeiriad:** Cyfeiriad yr Ysgrifennydd : Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)
**Ymddiriedolwyr:**

Haydn Lloyd (Cadeirydd)
Emlyn Schiavone (Is-Gadeirydd)
Ieuan Phillips (Trysorydd)
Huw Michael (Ysgrifennydd)

**Dogfen Rheolaeth:** Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

**Amcanion:**
Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

**Gweithgareddau a Chyflawniadau 2024**

**Rheolaeth**
Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y Côr yn ystod 2024.

**Swyddogion**
Yn ôl y cyfansoddiad, cymrodd yr Is-Gadeirydd Haydn Lloyd (B1) drosodd fel Cadeirydd y côr yn y CCB ddiwedd mis Chwefror 2024, pan ddaeth cyfnod Cadeiryddiaeth lwyddiannus Kevin Thomas (T2) i ben. Etholwyd Emlyn Schiavone (B1) yn Is-Gadeirydd yn ddiwrthwynebiad. Cymrodd Lloyd Thomas (T1) drosodd fel Swyddog Llês cyn diwedd y flwyddyn. Nid oedd unrhyw newidiadau eraill.

**Aelodaeth**
Cynyddwyd y tâl aelodaeth yn ôl i £90 y flwyddyn am 2024 i ateb cynnydd yn ein costau (honoraria yn bennaf) a'r lleihad yn yr arian wrth gefn yn dilyn Cyngerdd Neuadd Albert.
Denwyd nifer o aelodau newydd yn ystod y flwyddyn: Wenallt David (B1), Keith Jones (B1), Brian Farmer (B2) a Dave O'Brien (B2). Gadawodd Tim Vaughan (B2) y côr ar ddechrau'r flwyddyn. Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2024 yw 31.

**Marwolaethau**
Dechrau'r flwyddyn, collodd dau o aelodau'r côr eu gwragedd. Yn gyntaf, Janet Jones, gwraig Eric (T2) ar y 16eg o Ionawr ar ôl salwch cymharol fyr. Bu'r côr yn cymryd rhan yn angladd Janet yn y capel ym Mhencader. Roedd Janet wedi bod yn Gadeiryddes ar Bwyllgor y Gwragedd ers blynyddoedd a wedi gweithio'n galed dros y côr. Coffa da amdani.

Wedyn, ar y 18fed o Fawrth, bu farw Barbara, gwraig Huw Morgan (T1). Roedd cynrychiolaeth dda o'r côr yn angladd Barbara, i gyfleu ein cydymdeimlad â Huw.

Wedyn, yn drist iawn, bu farw un o selogion y côr dros flynyddoedd lawer, Dai Jones, Pencader (Dai Bach) ar y 25ain o Fedi ar ôl bod yn yr ysbyty am gyfnod hir. Cymrodd y côr ran yn ei angladd yn yr eglwys yn Nhalgarreg, Ceredigion. Coffa da amdano.

**Presenoldeb**
Tua 20-25 yn yr ymarferion wythnosol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

**Cyngherddau**
Uchafbwynt hanner cynta'r flwyddyn oedd Cyngerdd Cymdeithas Corau Meibion Cymru yn Neuadd Albert, Llundain, dan arweiniad Alwyn Humphreys, ar Ebrill 27ain. Roedd 16 o'n haelodau ar y llwyfan yn rhan o'r côr mawr. Cafwyd penwythnos hyfryd yn Llundain gan sefyll am ddwy noswaith yn y Copthorne Tara Hotel, Kensington. Cawsom fws Ffoshelig i fynd â ni (gyrrwr Barry). Ar y ffordd nôl arhoson ni yn y Bridge, Llangennech am ginio Dydd Sul. Penwythnos i'w chofio yn wir.

Roedd nifer o gyngherddau eraill yn ystod y flwyddyn hefyd:

6.3.24: Noson Cawl a Chân, Neuadd Langynin
3.5.24: Gwesty Tŷ Mawr, Brechfa
15.6.24: Sioe San Clêr ym maes y sioe, Nant y Ci
12.7.24: Noson Gwobrwyo Busnesau Sir Gâr ym Mharc y Sgarlets.
29.9.24: Eglwys Llanybydder
8.11.24: Eglwys Llanfynydd
19.11.24: Hafan Tywi
6.12.24: Globe Wine Bar, Talacharn

**Perfformiadau/ Digwyddiadau Eraill**
15.6.24: Noson gymdeithasol gyda Cymdeithas Gymraeg Chelmsford yn y Llwyn Iorwg
22.9.24: Cymanfa Ganu yng Nghapel Soar, Llambed i ddathlu 60 mlynedd ers ffurfio Côr Meibion Cwmann.
19.10.24: Canu dwy eitem yng Nghyngerdd "A Choired Taste" yn y Lyric, Caerfyrddin. Holl elw at achosion da.
24.10.24: Canu dwy eitem yng Nghwrdd Diolchgarwch Capel Nantgaredig

**Priodasau**
7 Medi 2024: Priodas yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Pontargothi (Gruff a Caroline Davies)

**Ffrindiau'r côr**
Rhaid nodi ein bod wedi derbyn rhodd hael iawn i'r côr wrth Mrs Joyce Mayon-White , Llundain. Mae Mrs Mayon-White wedi bod yn ein cefnogi yn ariannol dros nifer o flynyddoedd ond roedd ei rhodd eleni yn ddigynsail ac yn arbennig o hael. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi.

**Elusennau**
Cyflwynwyd siec am £1600 I Mr Meirion Owen (Prostate Cymru) yn ystod y ginio ym mis Chwefror. (Hwn oedd hanner yr elw o'n cyngerdd ym mis Tachwedd 2023)

Roedd ein rhan yng nghyngerdd "A Choired Taste" yn ddi-dal am fod yr holl elw yn cael ei rannu rhwng deg elusen lleol.

**Cymdeithasol**
20.2.24 Cinio yn yr Hebog, Caerfyrddin i ddathlu 65 mlynedd ers dechrau'r côr .
31.10.24: Noson Pizza a Bingo yn y Plough, Felingwm

**Pwyllgor y Gwragedd**
Dymuna'r Côr ddiolch i Bwyllgor y Gwragedd am eu cefnogaeth parhaol, yn enwedig am ofalu am y gwisgoedd, am drefnu'r Ginio yn yr Hebog a'r Noson Pizza yn Felingwm.

**Repertoire**
Yn nhri mis cynta'r flwyddyn, roedd y pwyslais ar ddysgu darnau oedd yn cael eu canu yng nghyngherdd CCMC yn Neuadd Albert Llundain yn Ebrill 2024.
Ychwanegwyd "This is the Moment" a "Gwin Beaujolais" at y repertoire yn ystod y flwyddyn.
Mae rhestr llawn repertoire'r côr ar ein gwefan.

**Arweinydd a Chyfeilyddes**
Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegu eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Cafodd Wyn ddyrchafiad yn ystod y flwyddyn a olygai ei fod wedi gorfod symud i Aberteifi i fyw. Er hynny, mae yn dal i deithio i Gaerfyrddin i arwain y côr yn wythnosol. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.